Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 27 EBRILL 2009

Mae'n amser unwaith eto i'r e-fwletin a thynnir eich sylw yn gyntaf at y noson i godi arian at y Morlan sydd i'w chynnal nos Lun nesaf (18 Mai) am 7.30. Noson o farddoniaeth gydag Iwan Llwyd a Meirion MacIntyre Huws ydyw. Gobeithio'n fawr y dewch i gefnogi er mwyn i ni allu parhau i gynnal yr amryw weithgareddau sy'n rhan o beth yw cenhadaeth a gwaith y Morlan. Mae tocynnau yn £5 ac ar gael o'r Morlan (yn ystod oriau swyddfa). Ar y noson, bydd y Bar Coffi hefyd ar agor a bydd cyfle i brynu cryno ddisgiau gan artistiaid amrywiol – yr elw i gyd yn mynd at y Morlan.

Nodir isod y digwyddiadau eraill sy'n cymryd lle yn y Morlan dros yr wythnosau nesaf.

CWM (arddangosfa gelf y Llunwyr Lluniau)
10.00-4.00, Llun i Gwener, hyd at 12 Mai
Y cyfle olaf i chi weld y casgliad hyn o luniau wedi'u hysbrydoli gan gerddi Dai Jenkins.

FFORWM 50+ (Cyngor Sir Ceredigion)
2.00-5.00, dydd Mercher, 29 Ebrill
Cyfarfod misol i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

FESTEN
7.30, nos Fercher a nos Iau, 13 ac 14 Mai
Cynhyrchiad H@T Production – cwmni drama myfyrwyr – sy'n rhan o Wyl Ymylol Aber. Am docynnau neu fanylion pellach, e-bostiwch hatproductions1@gmail.com.

RHWYDWAITH HEDDWCH A CHYFIAWNDER ABERYSTWYTH
8.15, nos Fercher, 6 Mai
Cyfarfod misol nesaf y mudiad lleol hwn.

FFAIR LYFRAU
Dydd Sadwrn, 9 Mai
Dim manylion pellach ar hyn o bryd.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Mawrth, 12 Mai
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

NOSON O FARDDONIAETH GYDAG IWAN LLWYD A MEI MAC
7.30, nos Lun, 18 Mai
Noson o farddoniaeth gydag Iwan Llwyd. Cyfle i gymdeithasu a gwrando ar farddoniaeth gyda'r elw yn mynd tuag at y Morlan. Tocynnau: £5 (£4 gostyngol) ac ar werth nawr

Os gwyddoch am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr